



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG44245

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Carchardai yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 22 Gorffennaf 2022

Camau i'w cymryd: 14 Hydref 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd /
This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer carchardai yng Nghymru. Nod y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a'r safonau newydd yw helpu i sicrhau cyfwerthedd i bobl yn y carchar, o safbwynt mynediad at ofal, cymorth a thriniaeth camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn rhan o'r Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai, sy'n amlinellu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer iechyd a llesiant pobl sydd yn y carchar yng Nghymru.

Sut i ymateb

Dylech ymateb trwy gwblhau'r ffurflen ar-lein neu'r holiadur yng nghefn y ddogfen a'i anfon i flwch negeseuon e-bost Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru.

<https://gov.wales/draft-substance-misuse-treatment-framework-and-standards-mental-health-services-prisons>

<https://llyw.cymru/fersiwn-ddrafft-or-fframwaith-trin-camddefnyddio-sylweddau-safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd>

Substance.Misuse@gov.wales

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswllt

Ar gyfer rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed
Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Substance.Misuse@gov.wales

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd:

<https://gov.wales/draft-substance-misuse-treatment-framework-and-standards-mental-health-services-prisons>

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarparwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol yn gweld unrhyw ymateb a anfonwch atom yn llawn. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i gael ei gynnal gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i bob ymgynghoriad. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r corff a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os dymunwch aros yn ddienw, nodwch hynny wrth anfon eich ymateb, a byddwn yn dileu eich manylion cyn cyhoeddi'r dogfennau.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na 3 blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael gwybod pa ddata personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru a chael gafael arnynt
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu i'r data gael eu prosesu neu i gyfyngu ar hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu dileu
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael gwybod rhagor am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Tŷ Wycliffe
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cynnwys.....	5
Rhagair.....	6
Cefndir i'r ymgynghoriad	8
Beth yw'r prif faterion?.....	8
Beth yw'r sefyllfa bresennol?.....	9
Tystiolaeth ar gyfer newid: Gwella canlyniadau iechyd pobl yn y carchar.....	10
Crynodeb – Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer y Carchardai yng Nghymru.....	12
Crynodeb – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer y Carchardai yng Nghymru.....	13
Ymgysylltu.....	14
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad.....	16

Rhagair

Mae darparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel – yn ogystal â diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed – yn ddau o'r deg amcan llesiant sy'n cael eu hamlinellu yn ein [Rhaglen Lywodraethu 2021-2026](#). Hefyd, mae datblygu Cymru iachach yn un o'r saith nod llesiant sy'n sylfaen i [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) sy'n cydnabod pwysigrwydd datblygu cymdeithas sy'n hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol pobl ac yn ystyried dewisiadau ac ymddygiad sy'n fanteisiol i iechyd yn y dyfodol. Mae effeithiau anghyfartal y pandemig Covid-19 a'i effaith anghymesur ar rai grwpiau yn ddiweddar wedi dangos bod angen i ni wneud mwy i gefnogi pobl â chanlyniadau iechyd gwaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes.

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai un o'r grwpiau sydd mewn perygl o wynebu canlyniadau iechyd gwaeth yw pobl yn y carchar. Yn benodol, byddant yn wynebu lefelau uwch o gamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl gwaeth, yn ogystal â lefelau uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma. Yn ôl [astudiaeth 2018 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) i ddeall pa mor gyffredin yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymysg troseddwr gwrywaidd, roedd mwy nag 8 o bob 10 carcharor yng Nghymru wedi cael o leiaf un profiad niweidiol yn ystod plentyndod, ac roedd bron i hanner wedi cael pedwar profiad o'r fath neu fwy. Amlygwyd yr heriau hyn a heriau eraill sy'n wynebu carcharorion yng Nghymru yn ddiweddar gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'i ymchwiliad diweddar i [ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru](#).

Er mwyn ceisio gwella canlyniadau iechyd a lleihau'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer troseddwr yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion i ddatblygu Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer ein carchardai yng Nghymru. Mae'r polisiâu yn flaenoriaethau yn y [Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai](#) – a ddatblygwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru, byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r egwyddor sylfaenol o gyfwerthedd a sicrhau bod pobl yn y carchar yn gallu manteisio ar yr un lefelau o gymorth a gofal iechyd â phobl yn y gymuned.

Hefyd, mae'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn bwysig yng nghyd-destun [Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar (Rhagfyr 2021) gan Lywodraeth y DU – yn ogystal ag argymhellion diweddar a wnaed gan y Cyd Arolygiad Cyfiawnder Troseddol (gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru) o'r [daith cyfiawnder troseddol ar gyfer unigolion ag anghenion ac anhwylderau iechyd meddwl](#), ac arolygiad thematig HMIP o [driniaeth cyffuriau a gwaith adfer cymunedol gyda phobl sydd ar brawf](#). Mae'r arolygiadau hyn yn cydnabod gwaith hanfodol gwasanaethau camddefnyddio

sylweddau ac iechyd meddwl, yn enwedig yng nghyd-destun adfer yn dilyn y pandemig, a chymorth ac adsefydlu parhaus ar gyfer pobl yn y carchar a'r gymuned.

Bydd y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer y carchardai yn cyd-fynd â gwaith arall sy'n cael ei wneud – gan gynnwys ein buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned, cyllid newydd i fynd i'r afael â digartrefedd a darparu atebion tai effeithiol a chynaliadwy ar gyfer pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf, a chymorth gweithredu parhaus i gynorthwyo unigolion ag anghenion cymhleth (gan gynnwys y rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd). Hefyd, bydd yn cyd-fynd â'r egwyddorion a amlinellir yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid a'r Glasbrint ar gyfer Troseddwr Benywaidd, yn ogystal â gwaith Straen Trawmatig Cymru a'i [Ffrwd waith Carchardai a Chyfiawnder Troseddol](#) sy'n ceisio meithrin gallu i nodi ac asesu straen trawmatig mewn carchardai yng Nghymru, a chynyddu mynediad at therapïau seicolegol effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i hyfforddi staff rheng flaen mewn ymarfer â phwyslais ar drawma, a chefnogi trosglwyddiadau effeithiol yn ôl i wasanaethau cymunedol.

Rydym yn gwybod y byddwn yn wynebu heriau wrth gyflwyno'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig yng nghyd-destun y pandemig a'r adferiad parhaus. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwmo i weithio gyda'r byrddau iechyd a phartneriaid eraill i oresgyn yr heriau hyn – gyda'r nod o ddefnyddio 2022 fel blwyddyn interim i gyflwyno'r Fframwaith a'r safonau yn y chwe charchar yng Nghymru.

Gan ddatblygu'r gwaith ymgysylltu a wnaed hyd yn hyn gyda'r timau iechyd mewn carchardai, byrddau iechyd, HMPPS yng Nghymru, a rhanddeiliaid camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl – mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i ni gryfhau ein hymrwymiad i ddiogelu iechyd a llesiant pobl yn y carchar, a defnyddio dull carchar cyfan o wella canlyniadau iechyd ac adsefydlu. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich safbwyntiau.

Cefndir i'r ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yng Nghymru. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yn flaenoriaethau a amlinellwyd yn y [Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai](#) a gafodd ei ddatblygu a'i gytuno gan Lywodraeth Cymru, byrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a HMPPS. Nod y Cytundeb Partneriaeth yw ysgogi gwelliannau mewn iechyd a llesiant pobl yn y carchar yng Nghymru, gan gydnabod rhwymedigaethau statudol unigryw'r partneriaid allweddol. Ei nod yw datblygu'r amcan cyffredin o sicrhau bod pobl yn y carchar yn gallu byw mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant a lle mae modd cael gwasanaethau iechyd o'r un safon â gwasanaethau yn y gymuned.

Beth yw'r prif faterion?

Yn aml, mae canlyniadau iechyd pobl yn y carchar yn waeth na'r boblogaeth ehangach, ac mae gan lawer ohonynt anghenion cymhleth a lefelau uchel o afiechyd, yn aml o ganlyniad i anghydraddoldebau iechyd (WHO, 2014).¹ Yn benodol, rydym yn gwybod bod cyfraddau camddefnyddio sylweddau a digartrefedd ymysg pobl yn y carchar yn uwch cyn iddynt fynd i'r carchar, ac mae problemau iechyd meddwl yn fwy cyffredin ac yn fwy difrifol. Amcangyfrifir bod 25% o boblogaeth carchardai'r DU yn cael anhawster wrth gyfleu a/neu brosesu neu ddysgu gwybodaeth newydd neu gymhleth, sy'n gallu eu gwneud yn fwy agored i niwed yn y carchar ac ar ôl cael eu rhyddhau. Mae cyfradd marwolaethau pobl yn y carchar 50% yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol² ac mae'r perygl o hunanladdiad ymysg dynion yn y carchar 3.7 gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol.³

Bydd y broses o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn helpu i sicrhau bod pobl yn y carchar yn gallu derbyn gofal a thriniaeth sy'n cyfateb i'r hyn sydd ar gael yn y gymuned. Hefyd, bydd yn helpu i gefnogi pobl yn y carchar i wella eu hiechyd a'u

1

WHO (2014) Prisons and Health, World Health Organisation, Copenhagen. Ar gael yn: <http://www.euro.who.int/en/health-topics/health-determinants/prisons-and-health/publications/2014/prisons-and-health>

2

[Government is failing its duty of care towards prisoners - Committees - UK Parliament](#)

³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019) Drug-related deaths and suicide in prison custody in England and Wales: 2008 to 2016. Ar gael yn: [Drug-related deaths and suicide in prison custody in England and Wales - Office for National Statistics](#)

llesiant a gwneud cyfraniad pwysig at leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae chwe charchar ar gyfer dynion yn unig yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i droseddwr benywaidd fwrw eu dedfryd yn un o garchardai Lloegr, ac mae'r rhan fwyaf yn mynd i Eastwood Park, Swydd Gaerloyw. Nid oes unrhyw garchar categori A (diogelwch uchel) yng Nghymru. Mae'n rhaid i droseddwr categori A (ac eraill o Gymru) fwrw eu dedfryd mewn carchardai yn Lloegr, gan ddychwelyd i Gymru ar ôl cael eu rhyddhau, neu cyn cael eu rhyddhau o bosibl os ydynt yn ddynion nad ydynt yn droseddwr categori A. Mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau yn ystyried diwallu anghenion dynion a menywod sy'n cael eu hailsefydlu yn eu cymunedau⁴ yng Nghymru ar ôl cael eu rhyddhau, yn unol (er enghraifft) â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Glasbrint ar gyfer Troseddwr Benywaidd yng Nghymru. Mae ystyriaethau tebyg mewn perthynas â throsglwyddo i'r gymuned wedi'u cynnwys yn y safonau drafft ar gyfer gwasanaethu iechyd meddwl.

Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Ar ôl datblygu'r Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer y carchardai, a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion i ddatblygu'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Gweithiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion gyda'r timau iechyd yn y carchardai, HMPPS, y byrddau iechyd a sefydliadau trydydd sector i ddatblygu drafftiau cychwynnol o'r dogfennau erbyn dechrau 2020. Bu'n rhaid gohirio'r ddwy ffrwd waith wedyn oherwydd y pandemig tan hydref 2021, pan oedd modd ymgymryd â rhagor o waith ymgysylltu i ddatblygu'r dogfennau drafft.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl gyda'r nod o ymgysylltu'n ehangach ar y ddwy ddogfen a rhoi cyfle i drafod cynlluniau i'w cyflwyno gyda rhanddeiliaid yng Nghymru.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn ar y cyd ar y ddwy ddogfen, y bwriad yw defnyddio 2022 fel blwyddyn interim ar gyfer cyflwyno'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r carchardai a'r byrddau iechyd yng Nghymru i bennu'r camau nesaf a'r amserlenni – ar sail adborth o'r ymgynghoriad. Ar ôl yr ymgynghoriad, rydym yn rhagweld y bydd angen i'r byrddau iechyd a'r carchardai yng Nghymru gwblhau dadansoddiad bylchau i nodi camau gweithredu allweddol i gyflwyno'r Fframwaith a'r safonau. Bydd rhagor o gymorth ar gael i'r carchardai trwy ddatblygiadau eraill, fel menter Straen Trawmatig Cymru a'i phwyslais ar gynorthwyo

⁴ Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. 2019. Glasbrint ar gyfer Troseddwr Benywaidd yng Nghymru. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cefnogi-troseddwr-benywaidd>

pobl yn y carchar sydd wedi dioddef trawma i dderbyn y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt.

Tystiolaeth ar gyfer newid: Gwella canlyniadau iechyd pobl yn y carchar

Yn 2019, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddau Gynllun Cyflawni newydd – y naill ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a'r llall ar gyfer Iechyd Meddwl. Yn ystod y ddau ymgynghoriad, nodwyd bod iechyd a llesiant carcharorion yn fater allweddol. Roedd y [Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22](#) a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori yn cynnwys y cam blaenoriaeth i sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru (a CEM Eastwood Park, carchar i fenywod) wasanaeth cydlynol, tryloyw a chyson ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn y carchar. Roedd y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r flaenoriaeth hon gan gydnabod yr angen i gryfhau'r llwybrau atgyfeirio o wasanaethau'r ddalfa i wasanaethau cymunedol ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl, gyda'r nod o wella cymorth ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd a chamddefnyddio sylweddau mewn carchardai.

Cefnogwyd hefyd y cysyniad o gynnwys troseddwr a phobl yn y carchar fel grŵp agored i niwed yn y [Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl 2019-22](#), gan gydnabod yr anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl yn y grŵp hwn, eu canlyniadau iechyd meddwl gwaeth a'u hanghenion iechyd penodol. Gofynnwyd hefyd am bwyslais ar anghenion carcharorion hŷn a phobl ifanc; buddsoddiad mewn adnoddau a hyfforddiant staff; a mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal.

Darparwyd cefnogaeth a thystiolaeth debyg ar gyfer newid yn ymwneud â gofal, cymorth a thriniaeth ar gyfer pobl yn y carchar, mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn benodol, i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yng Nghymru, yn dilyn ei ymchwiliad i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru.⁵

Roedd ymchwiliad y Pwyllgor yn cynnwys pwyslais ar y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng ngharchardai Cymru, ac a yw gwasanaethau gofal iechyd yn diwallu anghenion carcharorion ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd pobl sy'n cael eu cadw yng ngharchardai Cymru. Nododd Adroddiad y Pwyllgor fod y lefelau ychwanegol o angen ymysg poblogaeth y carchardai o'i gymharu â'r gymuned ehangach yn thema gyson gydol yr ymchwiliad.⁶

Nododd Adroddiad y Pwyllgor hefyd y gall fod "heriau penodol wrth asesu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl sy'n bwrw dedfrydau byr, ac wrth ddarparu'r

⁵ [Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon \(Mawrth 2021\) ar Ddarparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru](#)

⁶ Paragraff 58 [Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon \(Mawrth 2021\) ar Ddarparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru](#)

ymyriadau gofal a chymorth priodol” (paragraff 63). Hefyd, mae'r angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol parhaus wrth i unigolyn drosglwyddo o'r gymuned i'r carchar, ac yn ôl i'r gymuned ar ôl cael ei ryddhau, yn bwysig iawn. Er bod y Pwyllgor yn croesawu sicrwydd gan HMIP “bod gofal iechyd mewn carchardai yng Nghymru o safon resymol ar y cyfan, a'i fod yn gwella”, roedd yn pryderu “bod bylchau o hyd mewn meysydd allweddol fel iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, yn enwedig gan fod y rhain yn feysydd lle mae anghenion poblogaeth y carchardai yn debygol o fod yn fwy na'r rhai yn y gymuned ehangach”.⁷

Yn benodol nododd Adroddiad 2021 y Pwyllgor: “Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar boblogaeth carchardai Cymru, ac ar yr amser a'r adnoddau sydd ar gael i symud ymlaen â'r blaenoriaethau yn y cytundeb Partneriaeth. Fodd bynnag, oni bai bod gwaith i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn cael ei symud ymlaen ar frys, bydd yr amcan o sicrhau gwelliannau yn iechyd a llesiant pobl a gedwir yng ngharchardai Cymru yn y fantol.”⁸

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth i Drin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau oherwydd Camddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd yn cydnabod bod unigolion ag anghenion cymhleth angen dull gweithredu cydgysylltiedig gan ystod o wasanaethau gofal sylfaenol a/neu eilaidd, a ddarperir mewn lleoliadau statudol ac anstatudol.⁹

Yn 2019-20 a 2020-21, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol gwerth £1.3 miliwn ar gyfer gwasanaethau i bobl ag anghenion tai ac anghenion cymhleth, gan ganolbwyntio ar gefnogi pobl sy'n profi digartrefedd. Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i sicrhau ein bod yn cyrraedd y bobl â'r anghenion mwyaf, gan gynnwys pobl â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, pobl ddigartref a phobl hŷn. Roedd cyllid gwerth £1 miliwn ar gyfer Anghenion Cymhleth wedi parhau yn 2021-22.

Yn ogystal, roedd Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai 2021 yn nodi sut mae anghenion cymhleth troseddwr yn gallu cael effaith anghymesur ar ei brofiad yn y carchar yn ogystal â'i fywyd ar ôl iddo gael ei ryddhau. Mae'r Papur yn galw am fodel newydd o ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl¹⁰ ar gyfer troseddwr risg uchel â'r anghenion mwyaf cymhleth, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cymorth cynhwysfawr a chysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol.

⁷ Paragraff 73 [Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon \(Mawrth 2021\) ar Ddarparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru](#)

⁸ Tudalen 5 (Rhagair) [Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon \(Mawrth 2021\) ar Ddarparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru](#)

⁹ [Llywodraeth Cymru \(2015\) Pennod 3 Fframwaith Gwasanaeth i Drin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau oherwydd Camddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd](#)

¹⁰ Paragraff 124 [Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai \(Rhagfyr 2021\)](#)

Hefyd, mae'r papur yn galw am gydnabod menywod yn y carchar, sydd ag anghenion cymhleth sy'n gallu bod yn wahanol iawn i rai dynion yn y carchar. Yn aml, mae gan fenywod sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol anghenion cymhleth ac mae llawer wedi dioddef cam-drin domestig ac yn dioddef trawma a phroblemau iechyd meddwl o ganlyniad. Dyma sbardun y troseddu yn aml¹¹.

Bydd y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yn gwneud cyfraniad pwysig at fynd i'r afael â'r heriau hyn. Hefyd, bydd yn sicrhau bod gwasanaethau a chymorth priodol yn cael eu datblygu ar gyfer grŵp sydd mewn angen penodol.

Crynodeb – Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer y Carchardai yng Nghymru

Yn unol â'r hyn a amlinellir yn y [Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai](#), mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau yn datblygu llwybr camddefnyddio sylweddau sy'n ymwneud â darpariaeth glinigol a seicogymdeithasol yng ngharchardai Cymru. Bydd yn datblygu dull gweithredu integredig rhwng rolau iechyd a chyfiawnder o'r cyfnod derbyn hyd at ryddhau troseddwr waeth beth yw hyd ei ddedfryd.

Mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft wedi'i gynllunio i lywio a chynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol i gynllunio a darparu gwasanaethau atal a thrin cynaliadwy a theg o ansawdd uchel ar gyfer pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn y carchar neu sy'n wynebu risg o broblemau o'r fath. Mae'n rhan o'r [canllawiau](#) ar leihau niwed a'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer pobl sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae Pennod 2 o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft yn amlinellu'r llwybr triniaeth glinigol, o'r cam cychwynnol ac asesu hyd at ddarparu gofal a chymorth dilynol ar ôl i unigolyn gael ei ryddhau o'r carchar, ar gyfer alcohol a chyffuriau. Hefyd, mae'n cynnwys adran benodol ar ddibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol a phroblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd. Mae'n bosibl y bydd defnydd unigolyn o gyffuriau ac alcohol yn peri problemau iddo, felly mae'r broses asesu a'r llwybr wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg ac yn gynhwysol, hyd at ddarparu cymorth dilynol a chymorth i atal ail bwl.

Mae Pennod 3 yn crynhoi'r canllawiau ar gyfer ailsefydlu, tra bod Pennod 4 yn canolbwyntio ar ddatblygiadau gofynnol yn y gweithlu, gan gynnwys adlinio a hyfforddiant. Er mwyn symud tuag at wasanaeth camddefnyddio sylweddau teg a di-dor, mae angen gwneud newidiadau sylweddol ym meysydd arloesi technolegol,

¹¹ Paragraff 153 [Papur Gwyn y Strategaeth Carchardai \(Rhagfyr 2021\)](#)

llywodraethu gwybodaeth a llifoedd data yn ymwneud â lleoliadau cymunedol a chyfiawnder troseddol.

Mae Pennod 5 yn amlinellu'r gofynion i ddefnyddio systemau gwybodaeth i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaeth rhagorol a diogel sy'n cyfateb i'r hyn sydd ar gael yn y gymuned¹² mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau a gofynion iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiedig.

Crynodeb – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer y Carchardai yng Nghymru

Yn unol â'r hyn a nodir yn y [Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai](#), bydd y safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yn datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant meddyliol ac anabledau dysgu cyson sydd wedi'u haddasu i'r angen ym mhob carchar.

Mae'r Safonau Cyffredinol sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori yn gweithredu fel fframwaith i asesu ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai trwy broses hunanadolygu ac adolygu gan gymheiriaid. Mae'r safonau wedi'u haddasu o safonau Rhwydwaith Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Carchardai (QNPMHS), Canolfan y Coleg ar gyfer Gwella Ansawdd (CCQI), Coleg Brenhinol y Seiciatryddion.¹³

Cyflwynir y safonau gan adran ar Amgylcheddau sy'n Galluogi, sy'n seiliedig ar ddeg gwerth. Credir bod pob un ohonynt yn ffactorau mewn amgylcheddau seicogymdeithasol cadarnhaol. Mae Amgylcheddau sy'n Galluogi¹⁴ yn lleoedd lle mae pwyslais ar greu amgylchedd cymdeithasol cadarnhaol ac effeithiol lle mae cysylltiadau iach yn cael eu hystyried yn allweddol i lwyddiant.¹⁵ Mae lleoedd sy'n galluogi yn creu mwy o gyfleoedd a chanlyniadau gwell i bawb yno. Maent yn creu staff hapusach a mwy cynhyrchiol; yn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer derbynwyr unigol; ac yn cynorthwyo pawb i wneud mwy o gyfraniad a gweithredu hyd eithaf eu gallu. Mae'r gwerthoedd hyn yn dibynnu ar ei gilydd ar gyfer ystyr ac eglurder. Bydd pob gwerth unigol yn gwella amgylchedd, ond maent yn creu Amgylchedd sy'n Galluogi o'u cyfuno. Mae pob un o'r 10 gwerth wedi'i ddiffinio gan safon, ac mae pob safon yn cynnwys meini prawf sy'n nodi sut mae gwasanaethau yn gallu bodloni'r safon.

¹² Sefydliad Iechyd y Byd. Health in Prisons. Ar gael yn: [Prisons-and-Health,-14-Drug-treatment-and-harm-reduction-in-prisons.pdf](#)

¹³ [Coleg Brenhinol y Seiciatryddion \(Awst 2021\) Standards for Prison mental Health Services – Fifth Edition](#)

¹⁴ [The Perceived Impact of the Enabling Environments Programme within Her Majesty's Prison and Probation Service Settings](#)

¹⁵ [Evidence-based reasons for embedding 'Enabling Environments' relational practice into the Criminal Justice System](#)

Ceir safonau newydd yn ymwneud â chryfhau prosesau cydweithio gyda gwasanaethau gofal sylfaenol a chamddefnyddio sylweddau; gweithio gyda rhaglenni arbenigol mewn carchardai fel cymunedau therapiwtig a llwybrau anhwylder personoliaeth troseddwyr; a gwybodaeth am egwyddorion gofal â phwyslais ar drawma. Felly, mae'r safonau iechyd meddwl drafft yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Derbyn ac asesu – gan gynnwys trefniadau i asesu pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd
- Triniaeth ac adfer
- Rhyddhau a throsglwyddo
- Diogelwch
- Profiad cleifion
- Partneriaethau cydweithredol
- Rheoli meddyginiaeth
- Amgylchedd ehangach y carchar
- Gweithlu
- Arweinyddiaeth a llywodraethu
- Gofal iechyd meddwl 24 awr y dydd
- Yr Iaith Gymraeg

Hefyd, mae Safonau sy'n Benodol i Gyflyrau ar gyfer iechyd meddwl yn cael eu datblygu trwy ddull rhwydwaith sy'n defnyddio dysgu gan dimau carchardai yng Nghymru. Bydd y Safonau sy'n Benodol i Gyflyrau hyn yn cynnwys Anafiadau i'r Ymennydd, Anableddau Dysgu, Awtistiaeth, Dementia a Gofal mewn Argyfwng. Fodd bynnag, mae dulliau o gefnogi gofal sy'n benodol i gyflyrau wedi'u cynnwys yn y Safonau Cyffredinol.

Yn y ddogfen, mae pob safon unigol yn cael ei dynodi'n Fath 1, 2 neu 3. Mae Math 1 yn Safonau Hanfodol. Byddai methu â bodloni'r safonau hyn yn arwain at fygythiad sylweddol i ddiogelwch, hawliau neu urddas cleifion a/neu byddai'n torri'r gyfraith. Mae'r safonau hyn yn cynnwys hanfodion gofal hefyd, gan gynnwys darparu gofal a thriniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae Math 2 yn Safonau Disgwyliedig y dylai pob gwasanaeth eu bodloni. Mae Math 3 yn Safonau Dymunol y dylai gwasanaethau sy'n perfformio i lefel uchel eu bodloni.

Ymgysylltu

Wrth ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi ymgysylltu â'r HMPPS, byrddau iechyd a'r trydydd sector, timau iechyd mewn carchardai a rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys gwasanaethau a darparwyr camddefnyddio sylweddau yn y carchardai a'r gymuned).

Bydd y broses ymgysylltu hon yn parhau ar ôl yr ymgynghoriad er mwyn datblygu cynlluniau a champau gweithredu i gynorthwyo darpariaeth – ochr yn ochr ag ymgysylltu penodol ag unigolion â phrofiadau bywyd. Er enghraifft, trwy ymgysylltu â grwpiau presennol yn y carchardai yng Nghymru, yn ogystal â phobl sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl (neu sydd wedi derbyn cymorth yn y gorffennol) yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau cymorth gan gymheiriaid – fel grwpiau sydd wedi'u sefydlu i gefnogi gwaith ymchwil diweddar yn ymwneud ag effaith Covid-19 ar bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi, a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru.¹⁶ O ran safonau iechyd meddwl, byddwn yn parhau i gefnogi'r carchardai trwy sefydlu rhwydwaith penodol a fydd yn pwysleisio rhannu arferion da ac adolygiadau gan gymheiriaid.

¹⁶ Cwblhawyd [prosiect ymchwil cydweithredol](#) ar effeithiau'r pandemig yn ddiweddar gan bartneriaeth rhwng staff a gweithwyr cymheiriaid o Brifysgol De Cymru a chefnogaeth gan sefydliadau fe [Barod](#) a [Kaleidoscope](#). Cafwyd cymorth ar gyfer y prosiect gan Lywodraeth Cymru a [Datblygu Cymru Gofalgar](#).

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Eich sefydliad (os yw'n berthnasol):

Cyfeiriad e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â strwythur a chynnwys y llwybr triniaeth glinigol a nodir ym Mhennod 2 o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau – a'i ffocws ar asesu, gofal a thriniaeth ddilynol, a chymorth i bobl ar ôl gadael carchar – ar gyfer alcohol a chyffuriau?

Cytuno'n Gryf

Cytuno i Raddau

Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Anghytuno i Raddau

Anghytuno'n Gryf

Os hoffech chi ddarparu gwybodaeth i gefnogi'ch ymateb i gwestiwn 1, defnyddiwch y bocs isod.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â ffocws y canllawiau ar gyfer ailsefydlu a nodir ym Mhennod 3 o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau?

Cytuno'n Gryf

Cytuno i Raddau

Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Anghytuno i Raddau

Anghytuno'n Gryf

Os hoffech chi ddarparu gwybodaeth i gefnogi'ch ymateb i gwestiwn 2, defnyddiwch y bocs isod.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r datblygiadau gofynnol i'r gweithlu a nodir ym Mhennod 4 o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau?

Cytuno'n Gryf

Cytuno i Raddau

Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Anghytuno i Raddau

Anghytuno'n Gryf

Os hoffech chi ddarparu gwybodaeth i gefnogi'ch ymateb i gwestiwn 3, defnyddiwch y bocs isod.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r gofynion yn ymwneud â mynediad at systemau gwybodaeth a nodir ym Mhennod 5 o'r Fframwaith Trin Camdefnyddio Sylweddau?

Cytuno'n Gryf

Cytuno i Raddau

Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Anghytuno i Raddau

Anghytuno'n Gryf

Os hoffech chi ddarparu gwybodaeth i gefnogi'ch ymateb i gwestiwn 4, defnyddiwch y bocs isod.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r safonau cyffredinol arfaethedig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai a'u pwyslais ar y meysydd canlynol:

- Derbyn ac asesu – gan gynnwys trefniadau i asesu pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd
- Triniaeth ac adfer
- Rhyddhau a throsglwyddo
- Diogelwch
- Profiad cleifion
- Partneriaethau cydweithredol
- Rheoli meddyginiaeth
- Amgylchedd ehangach y carchar
- Gweithlu
- Arweinyddiaeth a llywodraethu
- Gofal iechyd meddwl 24 awr y dydd
- Yr Iaith Gymraeg

Cytuno'n Gryf

Cytuno i Raddau


Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Anghytuno i Raddau

Anghytuno'n Gryf

Os hoffech chi ddarparu gwybodaeth i gefnogi'ch ymateb i gwestiwn 5, defnyddiwch y bocs isod.

Cwestiwn 6: A oes gennych chi unrhyw heriau i'r dystiolaeth a nodir yn y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer iechyd meddwl, a sut y gellir mynd i'r afael â'r heriau hyn?



Cwestiwn 7: Rydym wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft o Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant at ddibenion ymgynghori ochr yn ochr â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effeithiau ar hawliau plant a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant?

Cytuno'n Gryf

Cytuno i Raddau

Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Anghytuno i Raddau

Anghytuno'n Gryf

Os hoffech chi ddarparu gwybodaeth i gefnogi'ch ymateb i gwestiwn 7, defnyddiwch y bocs isod.

Cwestiwn 8: Rydym wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effeithiau ar bobl â nodweddion gwarchoddedig?

Cytuno'n Gryf

Cytuno i Raddau

Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Anghytuno i Raddau

Anghytuno'n Gryf

Os hoffech chi ddarparu gwybodaeth i gefnogi'ch ymateb i gwestiwn 8, defnyddiwch y bocs isod.

Cwestiwn 9: Rydym wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft o Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg at ddibenion ymgynghori ochr yn ochr â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effeithiau ar yr Iaith Gymraeg?

Cytuno'n Gryf

Cytuno i Raddau

Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno

Anghytuno i Raddau

Anghytuno'n Gryf

Os hoffech chi ddarparu gwybodaeth i gefnogi'ch ymateb i gwestiwn 9, defnyddiwch y bocs isod.

Cwestiwn 10: Hoffem wybod eich safbwyntiau ar effeithiau'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 11: Eglurwch sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac ar osgoi effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad.

Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

